# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson (Cadeirydd); Cynghorydd S.J. Haines (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, E. Goodjohn, S.M. Hanks, K.P. Mahoney, S.D. Perkes, J. Protheroe a N.C. Thomas

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd A. Asbrey.

198 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu’r datganiad canlynol: "Mae'r cyfarfod hwn yn cael ei ffrydio'n fyw a bydd yn cael ei archifo ar gyfer ei wylio yn y dyfodol".

199 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Ebrill, 2022 fel cofnod cywir.

200 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

201 DIWEDDARIAD TGCH AELODAU (RGTGCH) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer TGCh yr adroddiad gan ddarparu diweddariad cyffredinol mewn perthynas â darpariaeth TGCh i Aelodau Etholedig a Chyfetholedig. Roedd hyn yn cynnwys y rhaglen adnewyddu caledwedd Aelodau a oedd wedi'i gaffael a'i dosbarthu ynghyd â hyfforddiant priodol ar gyfer yr holl Aelodau.

Fe wnaeth y Cynghorydd Mahoney godi rhai materion yn seiliedig ar TGCh yr oedd wedi eu profi wrth gysylltu â Swyddogion y Cyngor, yn enwedig dros y ffôn. I'r pwynt hwn, esboniodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer TGCh fod Ffonau Meddal wedi'u gosod yng ngliniaduron Swyddogion y Cyngor i hwyluso gweithio hybrid, ac na fyddai'r system teleffoni hon yn weithredol pan yw gliniadur y Swyddog perthnasol wedi’i ddiffodd neu heb ei ddefnyddio, ac yn ystod y cyfnod hwnnw dylai’r galwad cael ei ddargyfeirio i negeseuon llais y Swyddog.

Esboniodd hefyd fod lansiad cyhoeddus diweddar o fenter Taliadau Argyfwng Costau Byw wedi creu lefel uchel iawn o alwadau allanol yn dod i mewn, a bod gweithio drwy'r mater hwn wedi effeithio ar systemau teleffoni yn ystod y cyfnod hwn.

Holodd y Cynghorydd Thomas pam nad oedd hen rifau ffonau symudol wedi gallu cael eu symud ar draws i'w dyfeisiau ffôn symudol newydd. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol na fyddai hynny wedi bod yn bosibl oherwydd cytundeb corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg gydag O2, a'r angen i brynu cardiau sim ychwanegol oddi wrth y darparwr hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll nad oedd llwyfan hyfforddiant digidol Cyngor Bro Morgannwg, iDev, wedi cofnodi peth o'i hyfforddiant fel y cwblhawyd yn y system. Dywedodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu wrth y Pwyllgor bod y mater hwn wedi'i nodi a'i fod yn cael sylw ar hyn o bryd, a gofynnodd i unrhyw faterion pellach cael eu hadrodd i'r tîm Gwasanaethau Democrataidd, a fyddai'n cysylltu â'r adran Datblygu a Dysgu Sefydliadau er mwyn datrys yr anghywirdebau.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Hanks pam roedd rhai Aelodau yn arddangos teitlau gwahanol ar y rhestr cyfranogwyr ar feddalwedd TEAMS mewn cyfarfodydd, dywedodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu fod hyn yn ymwneud â chyfranogwyr sy'n ymuno â chyfarfodydd gan ddefnyddio dyfeisiau personol, ac y byddai angen i welliannau gael eu gwneud gan y cyfranogwyr eu hunain, er mwyn creu fformat arddangos unffurf i bawb.

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'R adroddiad.

(2) BOD ymatebion y Prif Weithredwr i'r materion a godwyd gan y Cynghorydd Mahoney o ran y gallu i cysylltu ac ymgysylltu ag uwch swyddogion yn cael eu copïo i aelodau'r Pwyllgor.

(3) BOD Rheolwr Gweithredol, TGCh, yn cylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor esboniad o'r rhesymau pam mae system teleffoni'r Cyngor wedi cael ei heffeithio'n andwyol oherwydd lansiad y fenter taliadau argyfwng a pham nad oedd TGCh wedi cael gwybod ei bod yn cychwyn.

(4) BOD ymateb y Rheolwr Gweithredol, TGCh i faterion a godwyd gan y Cynghorydd Thomas yn ymwneud â throsglwyddo hen rifau ffôn symudol Cynghorwyr i ffonau symudol newydd a gyflwynwyd yn rhan o'r Strategaeth Adnewyddu TGCH ar ôl yr etholiad yn cael ei gylchredeg ymhlith aelodau'r Pwyllgor.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2-4) Gyda golwg ar y trafodaethau yn y cyfarfod

202 CYFLAWNI SWYDDOGAETHAU’R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD (PGD) –

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a oedd yn hysbysu’r Aelodau o swyddogaethau’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau hyfforddiant a datblygu a gyflawnwyd gan yr Aelodau ers yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

Rhoddodd yr adroddiad gyflwyniad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a manylion yn ymwneud â'i gylch gwaith. Cafodd rôl y tîm Gwasanaethau Democrataidd hefyd ei amlinellu yn yr adroddiad, gan gwmpasu'r gefnogaeth a ddarparwyd gan y tîm a'r adnoddau sydd ar gael o fewn y gwasanaeth. Cafodd y Canllawiau a'r gefnogaeth statudol ar gyfer cyflawni rôl Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd eu cynnwys yn yr adroddiad hefyd. Tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sylw at y ffaith nad oedd yn gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer adnoddau ychwanegol ar gyfer staff na llety ar hyn o bryd, er bod materion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghylch trafodaethau parhaus ar yr anghenion o ran adnoddau.

Cafodd heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth eu hamlygu - yn bennaf o ganlyniad i'r pandemig - er enghraifft, yr angen i hyfforddi'r Aelodau wrth ddefnyddio meddalwedd cyfarfodydd o bell. Byddai'r newid i ymgorffori cyfarfodydd hybrid yn llawn yn amserlen Pwyllgor y Cyngor yn lansio o fis Medi 2022.

Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'i effaith materol ar Gyfansoddiad Cyngor Bro Morgannwg hefyd ei gynnwys yn yr adroddiad. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod disgwyl i ganllawiau drafft pellach ar y Ddeddf gael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru yn Hydref 2022, a bod y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i ymgynghori ar ganllawiau o'r fath gan Awdurdodau Lleol Cymru wedi cau ar 22 Gorffennaf, 2022.

Cafodd y Rhaglen Sefydlu Aelodau a gynhaliwyd yn dilyn etholiadau Mai 2022 ei nodi yn yr adroddiad. Roedd yr aelodau wedi cael offer newydd yn ystod eu cyfnod Sefydlu, ac wedi'u cyflwyno i iDev - adnodd dysgu ar-lein y Cyngor. Wrth gyfeirio at elfennau hanfodol y rhaglen sefydlu dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod disgwyl i Aelodau fod wedi mynychu mwyafrif y sesiynau gorfodol erbyn 25 Gorffennaf, er bod rhai sesiynau ychwanegol yn cael eu trefnu er mwyn darparu ar gyfer y rhai nad oedd wedi gallu bod yn bresennol ar y dyddiadau a nodwyd.

Roedd disgwyl i adolygiad o'r broses Sefydlu Aelodau, gan gynnwys arolwg o brofiadau Aelodau, gael ei gynnal yn y dyfodol agos, gyda manylion am hyn i'w gyfathrebu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Tachwedd 2022. Pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd bwysigrwydd cael adborth y Cynghorwyr trwy'r Arolwg Sefydlu Aelodau sydd ar ddod.

Cafodd y Strategaeth Datblygu Aelodau hefyd ei thrafod yn yr adroddiad, ac roedd hon yn Strategaeth wedi ei hadnewyddu oedd wedi'i hardystio gan Gymdeithas

Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Yn gysylltiedig â hyn roedd Adolygiadau Datblygu Personol (ADPau) - proses oedd ar gael i holl aelodau'r Cyngor er bod gofyn iddynt gael eu cynnal gan Aelodau sy'n derbyn Uwch Gyflogau, ac eithrio Arweinydd y Cyngor. Byddai ADPau ar gyfer yr Aelodau hynny yn cael eu cynnal ymhen tua deuddeg mis i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion datblygu sydd ganddynt. Cafodd pob Aelod hefyd eu hannog i ystyried eu hanghenion datblygiad personol. Roedd y broses ADPau yn cael ei gweithredu i hwyluso hyn, ac i ffurfioli cynlluniau hyfforddi dilynol ar gyfer unigolion.

I gloi'r cyflwyniad, tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sylw at y wybodaeth Disgrifiadau Rôl Yr Aelod wedi'i diweddaru, sydd yng Nghyfansoddiad y Cyngor, a oedd wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda dull gweithredu ledled Cymru, ac anogodd y Cynghorwyr i ystyried y wybodaeth hon er mwyn cael cipolwg ar eu cyfrifoldebau a'u gofynion rheolaidd yn eu rôl.

Nododd y Cynghorydd Ewan Goodjohn fod nifer o Aelodau â modiwlau hyfforddiant pwysig yn weddill ar eu cyfer, a holodd pa ddarpariaethau oedd yn cael eu gwneud ar gyfer cynnal sesiynau ychwanegol mewn pryd ar gyfer ailddechrau cyfarfodydd y Cyngor ym mis Medi. I'r pwynt hwn, cydnabu Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd bwysigrwydd y modiwlau hyfforddiant, a dywedodd y byddai ffocws ar Aelodau'n cwblhau modiwlau hanfodol heb eu cwblhau a hefyd y gellid trefnu sesiynau un-i-un gydag Aelodau pe bai angen.

Dywedodd y Cynghorydd Haines ei fod yn teimlo y gallai hyfforddiant Aelodau gael ei symleiddio a'i wella, gan awgrymu y gallai fod yn bwnc rhaglen waith i'r Pwyllgor. Roedd y Cynghorydd Carroll, tra'n cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant i Gynghorwyr newydd a hyfforddiant sy'n berthnasol i bob Pwyllgor, hefyd yn teimlo y gellid ystyried darwahanu hyfforddiant drwy gydol cyfnodau mewn swydd Cynghorwyr yn y dyfodol, yn hytrach na chael y mwyafrif o ystod amrywiol y pynciau hyfforddiant yn cael eu cyflwyno i Gynghorwyr ar ddechrau eu tymor. Ar y llaw arall, dywedodd y Cynghorydd Perkes fod y rhaglen Sefydlu Aelodau yn debyg i unrhyw gyfnod sefydlu newydd yn y gweithle o ran amserlenni a nododd hefyd fod llawer o sesiynau hyfforddiant ar gael ar-lein i Gynghorwyr gael mynediad atynt.

Fe gadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod recordiadau o sesiynau hyfforddiant ar gael i Gynghorwyr ar-lein. Er ei fod yn gwerthfawrogi bod gan Gynghorwyr bwysau a blaenoriaethau cystadlu, a bod llawer o hyfforddiant yn cael eu cynnwys ar ddechrau tymor newydd y swydd, y gallai fod modd eu darwahanu dros gyfnod hirach o amser, roedd y broses sefydlu wedi'i chynllunio yn unol â safonau disgwyliedig Llywodraeth Cymru, ac roedd yn debyg i'r rhai mewn Awdurdodau Lleol eraill.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD angen i adroddiadau ac argymhellion (os oes rhai) mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i nifer a graddau staff sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau'r Gwasanaethau Democrataidd nodi unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

(2) NODI’R Strategaeth Datblygu Aelodau sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i’r adroddiad.

(3) BOD y gweithgareddau hyfforddi a datblygu a gynhaliwyd gan Aelodau ers mis Mai 2022 hyd yma yn cael eu nodi, a bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar gyfraddau presenoldeb yn y gwahanol sesiynau sefydlu.

(4) BOD, yn unol â gofynion "y Mesur" (54), pob Aelod etholedig yn cael cyfle i gael Adolygiadau Datblygu Personol blynyddol (ADPau).

(5) BOD y Pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddaru ar y broses ADPau, yn tynnu sylw at yr anghenion datblygu a nodwyd ac i lywio rhaglen ddatblygu yn y dyfodol.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Parhau i adolygu adnoddau i gyflawni swyddogaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

(2) Codi ymwybyddiaeth o gynnwys y Strategaeth.

(3) I gydnabod y Rhaglen Sefydlu Aelodau helaeth a gynhaliwyd ar ôl etholiadau Llywodraeth Leol.

(4) Cefnogi anghenion hyfforddi Aelodau yn y dyfodol.

(5) Cyflwyno Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi.

203 PENODI IS-BWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD: ABSENOLDEB TEULUOL AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG (PGD) –

Roedd yr adroddiad yn hysbysu’r Aelodau o ofynion Rheoliadau Absenoldeb Teuluol i Aelodau o Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 fel y’i diwygiwyd gan Reoliadau Absenoldeb Teuluol i Aelodau o Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021. Diwygiwyd y Rheoliadau yn 2021 er mwyn cynyddu'r cyfnod absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol o 2 wythnos i 26 wythnos, ac i ganiatáu i'r Awdurdod ddelio â gwahanol fathau o Absenoldeb Teuluol. Roedd y Rheoliadau hefyd yn nodi'r angen i is-bwyllgor ddelio â materion ynghylch unrhyw apeliadau yn erbyn gwrthod caniatáu ceisiadau am absenoldeb teuluol. Amlinellwyd cylch gorchwyl yr is-bwyllgor a sut y dylid ei gyfansoddi i ddelio ag unrhyw gwynion yn erbyn gwrthodiadau cais yn yr adroddiad ym mharagraff 2.7.

Dywedodd y Cadeirydd mai'r gofynion oedd penodi is-bwyllgor gyda thri aelod, un o bob un gan y tri grŵp gwleidyddol mwyaf o fewn y Cyngor.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD yr Is-Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, gyda'r aelodaeth a'r Cylch Gorchwyl canlynol, yn cael ei benodi:

- Aelodaeth: Y Cynghorwyr E. Goodjohn, S.J. Haines a Dr. I.J. Johnson;
- Cylch Gorchwyl:
  Gwrando a phenderfynu ar unrhyw gwynion gan Aelodau ynghylch gwrthodiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ganiatáu absenoldeb teuluol o dan Reoliadau Absenoldeb Teuluol Ar gyfer Aelodau Etholedig Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Absenoldeb Teuluol i Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygiad) 2021.

(2) BOD darpariaethau Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Absenoldeb Teuluol Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygiad) 2021 a’r rhwymedigaethau statudol a osodir ar y Cyngor yn cael eu nodi.

<u>Rheswm dros benderfyniadau</u>

(1&2) I sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion darpariaethau Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Absenoldeb Teuluol Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygiad) 2021.

204 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD (PGD) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r ystod eang o ddyletswyddau a gynhaliwyd o fewn ardal y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn, datblygiadau parhaus, a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi sut y sefydlwyd y gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod ei rolau statudol hefyd yn cynnwys y Swyddog Priodol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a goruchwylio Gwasanaeth Cofrestru'r Cyngor o enedigaethau, marwolaethau a phriodasau, ond bod yr adroddiad yn ymdrin â'r Gwasanaethau Democrataidd yn unig.

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, er nad oedd yn argymell adnoddau staffio ychwanegol ar hyn o bryd, roedd pwysau ar y tîm oherwydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac yn benodol y darpariaethau ar gyfer cynhyrchu a rheoli cyfarfodydd hybrid, a strategaeth cyfranogiad cyhoeddus newydd gan gynnwys hwyluso deisebau electronig.

Cafodd yr adnoddau staffio presennol eu hamlinellu yn yr adroddiad ac ar hyn o bryd roedd y tîm yn cynnwys 12 aelod o staff gan gynnwys cefnogaeth i Gabinet y Cyngor a'r swyddogaethau Maerol. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o'r gwaith yr oedd y tîm wedi ei wneud yn y deuddeg mis blaenorol gan

gynnwys gwaith a mentrau parhaus y mae'r tîm wedi mynd ati i gymryd rhan ynddo. Roedd Uwch Swyddogion wedi bod yn gweithio ar ddiweddariadau i Gyfansoddiad y Cyngor i sicrhau bod gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a gafodd eu cyflwyno ar 5 Mai, 2022, yn cael eu hadlewyrchu yn y Cyfansoddiad er nad oedd y canllawiau statudol newydd ar gael tan yr Hydref. Ar ôl derbyn y canllawiau hyn, byddai unrhyw ddiweddariadau pellach sydd eu hangen yn cael eu hadrodd i'r Cyngor maes o law.

Diolchodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd hefyd i'r Aelodau am eu hamynedd a'u cydweithrediad yn ystod y cyfnod yng nghamau cychwynnol Pandemig Covid-19, lle’r oedd angen i'r Gwasanaethau Democrataidd weithredu ffyrdd newydd o weithio er mwyn hwyluso cyfarfodydd o bell, gan gynnwys sefydlu a chyflwyno atebion meddalwedd newydd ar gyfer cyfarfodydd. Yn ei dro, diolchodd y Cynghorydd Hanks i TGCh a'r Gwasanaethau Democrataidd am eu cefnogaeth i oresgyn yr heriau hyn. Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd at yr atodiad at yr adroddiad a oedd yn manylu ar ffigyrau gwylio'r cyhoedd ar gyfer cyfarfodydd rhithwir y Cyngor fel arwydd o lefelau'r galw am gyfarfodydd o'r fath ymhlith y cyhoedd. Eglurodd hefyd fod atodiad pellach yn ymwneud â'r cyhoedd gyda'r Pwyllgorau Cynllunio a Chraffu.

Yn ddiweddar roedd y tîm Gwasanaethau Democrataidd wedi bod yn gweithio ar gydymffurfio â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer cyfarfodydd hybrid, gan gynnwys gweithio gyda darparwr atebion hybrid y Cyngor, Civico, ac aelodau hyfforddiant ar dechnoleg newydd er mwyn galluogi gofynion y Ddeddf. Roedd Siambr y Cyngor yn y Swyddfeydd Dinesig wedi cael ei huwchraddio i adlewyrchu'r gofynion technegol newydd. Cyn hynny bu peth oedi gyda'r broses hon oherwydd materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi offer, fodd bynnag, roedd yr uwchraddio bellach yn ei le ac roedd cyfarfod Cabinet wedi'i gynnal yn ystod yr wythnos ddiwethaf gan ddefnyddio'r fformat hybrid newydd. Amlygodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ymhellach, er mwyn rhedeg pob agwedd ar y llywodraethu a'r dechnoleg yn ddidrafferth, roedd hwyluso cyfarfodydd hybrid yn edrych yn debygol o fod angen dau Swyddog ychwanegol i staff pob cyfarfod, gydag aelod o TGCh i gefnogi Aelodau'r Cyngor yn bresennol ac i ddelio ag unrhyw faterion TGCh a allai godi. Diolchodd hefyd i'r Swyddogion yn y Gwasanaethau Democrataidd a TGCh a oedd wedi cefnogi'r broses o gyflwyno cyfarfodydd hybrid yn llawn.

Ymhlith agweddau eraill ar waith y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad oedd nifer o weithgorau a oedd wedi'u sefydlu o ran cydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill, a oedd yn cwrdd o bryd i'w gilydd drwy'r flwyddyn er mwyn rhannu arferion gorau ar draws pob sector yng Nghymru, a gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gyrff annibynnol perthnasol i'r gwasanaeth, gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Darparwyd rhywfaint o gipolwg ar rôl y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, gan esbonio bod y Panel yn delio â thaliadau cydnabyddiaeth a mathau eraill o gefnogaeth i Aelodau Etholedig, er enghraifft ad-daliadau am gostau gofal, a chymorth TGCh. Tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sylw at y ffaith bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi bwriadu y

dylai taliadau a thaliadau cydnabyddiaeth annog amrywiaeth ymhlith Aelodaeth Etholedig, a bod hyn felly yn cefnogi agenda amrywiaeth Llywodraeth Cymru.

I gloi, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod arwydd o'r gwaith y byddai'r tîm Gwasanaethau Democrataidd yn ei wneud am weddill eleni hefyd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor, wrth roi sylwadau ar y gwaith caled sy'n cael ei wneud gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a does dim cais am adnoddau ychwanegol ar hyn o bryd, yn cydnabod y byddai hyn yn siŵr o fod yn fater i drafod parhaus yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD – Nodi’r adroddiad.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

205 ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AEOLDAU (PGD) –

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ddarpariaeth ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi Adroddiadau Blynyddol gan yr Aelodau. Er bod y Mesur yn gofyn i Gynghorau sicrhau bod y cyfleuster hwn ar gael i'w Aelodau, doedd dim rheidrwydd ar Aelodau unigol i gynhyrchu un. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd nad oedd nifer sylweddol o Aelodau wedi manteisio arno yn hanesyddol, a dywedodd mai mater i bob Aelod unigol oedd dewis paratoi adroddiad o'r fath. Awgrymodd y gallai Adroddiad Blynyddol Aelod gael ei ddefnyddio fel cyfle i hysbysu etholwyr am y gwaith oedd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn gan Aelod.

Roedd gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y cyfrifoldeb i gadw rhai agweddau ar reolaeth olygyddol dros gynnwys adroddiadau, oedd yn gorfod cydymffurfio â rhai rheolau ynghylch cywirdeb ffeithiol a chynnwys difenwol. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor, gan fod angen i adroddiadau o'r fath fod yn addas i'w cyhoeddi ar wefan y Cyngor, na ddylen nhw fod yn or-wleidyddol eu natur.

PENDERFYNWYD – Hysbysu’r holl Aelodau o’r cyfleuster iddynt gynhyrchu Adroddiad Blynyddol i’w gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Hwyluso cydymffurfiad y Cyngor â darpariaeth berthnasol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (“y Mesur”).

206 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2022/23 (PGD) –

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a oedd yn cynnig Rhaglen Waith i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2022/23 i’r Aelodau ei hystyried. Wrth nodi bod trafodaeth

eisoes wedi digwydd yn gynharach yn y cyfarfod ynghylch hyfforddiant a datblygu Aelodau'n cael ei ychwanegu at raglen waith y Pwyllgor ar gyfer yr Hydref, penderfynwyd

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r Rhaglen Waith a'r amserlen fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.